

Proofing Tool

This should enable you to consider the needs, desires of people, communities and businesses in rural Wales.

Policy/ Programme/Initiative to be rural proofed	Cynllun tlodi tanwydd newydd a arweinir gan alw i olynu Nyth Cartrefi Clyd Llywodraeth Cymru
Division/Department	Yr Amgylchedd a Materion Gwledig
Contact Name	Paul Moyle
Date of review (to be completed by Rural Proofing Team)	27/07/17, Gail Merriman, Yr Is-adran Datblygu Gwledig

Questions	Comments
<p>Q1. Stakeholders What contact have you had with rural stakeholders? Please briefly describe any events targeted at rural stakeholders.</p>	<p>Cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus llawn ar y cynllun newydd i olynu Nyth rhwng 27 Gorffennaf 2016 ac 19 Hydref 2016.</p> <p>Cyflwynwyd y ddogfen ymgynghori i randdeiliaid amrywiol ac fe'i cyhoeddwyd ar wefan Llywodraeth Cymru. Roedd hyn yn cynnwys holl Awdurdodau Lleol Cymru, gan gynnwys y rhai mewn ardaloedd gwledig.</p> <p>Hefyd, cynhaliwyd gweithdy i randdeiliaid fel rhan o'r broses ymgynghori. Mynychwyd y gweithdy gan Awdurdodau Lleol mewn ardaloedd gwledig a gan sefydliadau fel National Energy Action a Chyngor ar Bopeth Cymru, a fu'n trafod materion gwledig.</p>
<p>Q2. Access Will access be an issue for rural people? (Rural people may have to travel long distances to access services).</p> <p>Yes _____ how will you overcome barriers?</p> <p>No _____ go to Q3</p>	<p>Na fydd. Bydd y cynllun newydd yn debyg iawn i gynllun presennol Nyth – sef cynllun Cymru gyfan a arweinir gan alw lle mae aelwydydd yn gallu cysylltu â'r cynllun am gymorth.</p> <p>Gellir cysylltu â'r cynllun trwy ganolfan alwadau am ddim neu'r wefan ar-lein.</p> <p>Rhoddir cyngor dros y ffôn, a bydd cynrychiolwyr y cynllun yn ymweld ag unrhyw eiddo sy'n gymwys ar gyfer mesurau effeithlonrwydd ynni cartref di-dâl.</p> <p>Bydd y gweithgarwch marchnata yn cynnwys gweithgarwch penodol mewn ardaloedd gwledig gan fod y cynllun yn targedu eiddo gwledig oherwydd y</p>

	tebygolrwydd nad ydynt yn rhan o'r prif gyflenwad nwy a/neu eu bod yn anodd eu trin.
<p>Q3. Needs of Rural People Has the policy taken account of rural needs, e.g. older population, lack of affordable housing, language requirements?</p> <p>Yes _____ please describe the needs and the mitigation action?</p> <p>No _____ What do you plan to do to take into account?</p>	<p>Ydy – rydym wedi ystyried anghenion gwledig wrth ddylunio cynllun newydd Nyth.</p> <p>Nod y cynllun yw gwella effeithlonrwydd ynni eiddo trwy sicrhau ei fod yn fwy fforddiadwy i'w wresogi. Rhoddir blaenoriaeth i gefnogi aelwydydd sydd â'r angen mwyaf a'r rhai sy'n byw yn y cartrefi mwyaf aneffeithlon o ran ynni.</p> <p>Mae nifer anghymesur o gartrefi aneffeithlon wedi'u lleoli mewn ardaloedd gwledig, sy'n golygu bod pobl sy'n byw yn yr ardaloedd hyn yn fwy tebygol o fyw mewn cartrefi oer (National Energy Action, 2013a). Yn ôl amcangyfrifon Llywodraeth Cymru, mae 42 y cant o gartrefi mewn ardaloedd gwledig yn wynebu tlodi tanwydd, o'i gymharu â dim ond 22 y cant o gartrefi mewn ardaloedd trefol (Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 2011).</p> <p>Felly, mae aelwydydd sy'n wynebu tlodi tanwydd mewn ardaloedd gwledig yn grŵp targed ar gyfer y cynllun newydd.</p> <p>Mae terfynau gwario wedi'u pennu ar gyfer faint o arian sy'n cael ei wario ar eiddo unigol. Mae'r terfynau hyn yn uwch ar gyfer eiddo nad yw wedi'i gysylltu â'r prif gyflenwad nwy (sy'n gyffredin mewn ardaloedd gwledig) er mwyn cydnabod bod eiddo o'r fath yn anodd ei drin.</p> <p>O safbwynt gofynion iaith, mae yna gymhareb 50/50 o siaradwyr Cymraeg yn y ganolfan alwadau ar gyfer y cynllun presennol; bydd angen parhau â hyn o dan y cynllun newydd. Hefyd, gallai'r cynllun gael effaith gadarnhaol ar yr iaith Gymraeg trwy wella cartrefi mewn ardaloedd gwledig lle mae'r iaith yn cael ei defnyddio'n amlach.</p>
<p>Q4 (a) Impact on Services Will the policy lead to the creation of new services (positive impacts) or the closure of existing services (negative impacts)?</p> <p>Yes _____ please</p>	<p>Bydd y cynllun newydd yn parhau â gwasanaeth sydd eisoes ar waith trwy gynllun presennol Nyth, ond gyda rhai newidiadau manteisiol.</p> <p>Er enghraifft, bydd cymhwysedd ar gyfer mesurau effeithlonrwydd ynni di-dâl yn cael ei ymestyn i gartrefi incwm isel sydd ag aelodau â chyflyrau iechyd penodol, yn ogystal â'r rhai sy'n derbyn budd-daliadau</p>

<p>explain</p> <p>No _____ move to Q4(b)</p>	<p>sy'n dibynnu ar brawf modd. Yn ôl gwaith ymchwil diweddar,¹ mae cynllun Nyth yn cael effaith gadarnhaol amlwg ar iechyd, ac yn lleihau defnydd o'r GIG.</p> <p>Hefyd, darperir cyngor yn y cartref ar gyfer aelwydydd sy'n gymwys ar gyfer mesurau effeithlonrwydd ynni di-dâl.</p>
<p>Q4 (b) How do you plan to overcome or mitigate any negative impacts?</p>	<p>Amherthnasol</p>
<p>Q5. Rural Places-Land</p> <p>Does your policy require the purchase or use of land? Have you considered rural dimensions such as land value, availability or restrictive designation?</p> <p>Yes _____ how will you overcome barriers?</p> <p>No _____ Go to Q6.</p>	<p>Amherthnasol</p>
<p>Q6. Terrain</p> <p>Will your policy work in areas of difficult terrain, e.g. narrow roads, steep mountains?</p> <p>Yes _____ please explain how?</p> <p>If no _____ how will you overcome barriers?</p>	<p>Gan fod y cynllun newydd yn ymestyn dros Gymru gyfan, mae'n bosibl y bydd angen gweithio mewn ardaloedd â thirwedd anodd, ond ni ddylai hynny atal mesurau effeithlonrwydd ynni rhag cael eu cyflwyno mewn cartrefi gwledig yn amodol ar y gofynion iechyd a diogelwch angenrheidiol.</p>
<p>Q7. Rural Business</p> <p>Is your policy relevant to SMEs or Micro Businesses?</p> <p>Yes _____ how have you taken their situation into account?</p> <p>No _____ go to Q8.</p>	<p>Ydy. Oherwydd natur lafurddwys a lleol y rhan fwyaf o waith effeithlonrwydd ynni, mae modd creu swyddi yn lleol. Caiff swyddi eu creu ym meysydd gosod lleol a gweithgynhyrchu, a byddant o fudd i'r sectorau trafnidiaeth, ynni a gwasanaeth hefyd.</p> <p>Bydd swyddi uniongyrchol yn cael eu creu ym maes cynhyrchu cyfarpar a deunyddiau, gan gynnwys gwaith inswleiddio a systemau gwresogi, yn ogystal ag ym meysydd gosod a rheoli prosiectau. Mae meysydd</p>

¹ <http://gov.wales/docs/caecd/research/2017/170404-fuel-poverty-data-linking-project-findings-report-1-en.pdf>

	<p>archwilio, monitro defnyddio ynni, sgoriau effeithlonrwydd, marchnata ac ymgynghori i gyd yn cynnig cyfleoedd cyflogaeth.</p> <p>Fel sy'n digwydd ar hyn o bryd o dan gynllun presennol Nyth, bydd BBaChau o Gymru yn gyfrifol am yr holl welliannau effeithlonrwydd ynni sy'n cael eu cyflwyno o dan y cynllun.</p> <p>Rydym yn gweithio gyda'r Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol i gaffael Rheolwr Cynllun ar gyfer y cynllun newydd. Bydd ganddo Ddangosyddion Perfformiad Allweddol o fudd cymunedol penodol, gan gynnwys defnyddio contractwyr / cyflenwyr lleol i helpu i hyrwyddo'r economi leol.</p>
<p>Q8. Access to Support Does your policy expect business to be able to access support? (This may be in the form of advice, training, finance etc.)</p> <p>Yes _____ What barriers will they face and how will they overcome them? No _____go to Q9</p>	<p>Er na fydd busnesau yn gymwys ar gyfer cymorth gan y cynllun trwy gyngor neu fesurau, byddant ar eu hennill yn sgil cyfleoedd busnes sy'n cael eu creu gan y cynllun, fel y trafodwyd uchod.</p>
<p>Q9. Infrastructure Does your policy depend on infrastructure such as good road/rail connections or fast broadband speeds?</p> <p>Yes _____how have you made provision for businesses in more isolated rural areas? No _____go to Q10</p>	<p>Nac ydy. Byddai gwella'r seilwaith band eang yn cael effaith gadarnhaol ar ddefnyddio gwefan y cynllun ymysg deiliaid tai, ac ar gyfer rhaglenni ein syrfewyr, ond mae modd cysylltu â'r cynllun mewn ffyrdd gwahanol. Mae deiliaid tai yn gallu cysylltu â'n canolfan alwadau, ac mae syrfewyr yn gallu defnyddio dulliau all-lein os oes unrhyw broblemau â mynediad i'r rhyngwyd.</p>
<p>Q10. Other Issues Did any other issues come up as a result of the engagement with stakeholders mentioned in Q1 or any other consultation?</p> <p>Yes _____ What were they and how have you modified your policy to take</p>	<p>Naddo.</p>

them into account? No _____ go to Objectives.	
--	--

Objectives

The proofing tool aims to help you consider rural realities and needs as part of the policy-making process. Now that you have completed the questionnaire, what are your main objectives to make your policy relevant and practical in a rural setting?

Please list up to five objectives:

1	Sicrhau bod y mesurau rydym eisoes wedi'u rhoi ar waith o dan gynllun presennol Nyth yn cael eu datblygu yn y cynllun newydd.
2	Gwella'r broses dargedu er mwyn sicrhau bod llawer o aelwydydd cymwys mewn ardaloedd gwledig yn manteisio ar y cymorth sydd ar gael. Dylai hyn gynyddu'r lefelau a sicrhawyd yn 2016/17 (34% gwledig).
3	
4	
5	

Official completing the Proofing Tool.
Name: Paul Moyle
Department: Yr Amgylchedd a Materion Gwledig
Date: Gorffennaf 2017
Signature: Paul Moyle
Head of Branch (sign off):

Mai 2018

Name:

Kath Evans

Job title and department:

Pennaeth y Gangen Effeithlonrwydd Ynni Domestig a Thlodi Tanwydd

Date:

May 2018

Signature *Kath Evans*